

Wales  
**TUC**  
Cymru

# A allech chi fod yn Gynrychiolydd Dysgu ar gyfer Undeb?

Canllaw i ddod yn Gynrychiolydd Dysgu Undeb  
Wales TUC Cymru

# A allech chi fod yn Gynrychiolydd Dysgu ar gyfer Undeb?

## Beth yw CDU?

Eiriolwr dysgu yn y gweithle wedi'i ethol a'i hyfforddi yw CDU. Mae'n golygu y byddech chi'n gweithio gyda'ch cydweithwyr i ddod o hyd i ba fath o ddysgu sydd o ddiddordeb mwyaf iddyn nhw, pa fath o gyrsiau'r hoffen nhw eu mynychu, ac yna gweithio gyda'ch undeb, eich cyflogwr a'ch darparwyr dysgu i gynnig y cyrsiau hynny, neu gyfeirio'r dysgwyr at y lle y gallan nhw ddod o hyd iddyn nhw. Y chi fydd y llais ar gyfer dysgu a sgiliau o fewn eich gweithle a changen o'ch undeb.

Gallech chi fod ynghlwm yn ogystal mewn ymgyrchoedd cenedlaethol fel Diwrnod Dysgu yn y Gwaith neu'r Her Ddarllen er mwyn hyrwyddo buddion dysgu gydol oes.

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng swyddogaeth y CDU mewn dysgu yn y gweithle a swyddogaeth y cyflogwr mewn hyfforddiant yn y gweithle. Efallai y bydd yna rai adegau pan fydd CDUau a chyflogwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno cyrsiau, ond nid swyddogaeth y CDU yw helpu cyflogwyr gyda'r hyfforddiant y mae staff ei angen er mwyn gwneud eu swyddi. Mae'r CDU yno i helpu cydweithwyr i uwchsgilio a chael mynediad at gyfleoedd dysgu perthnasol ac sydd o ddiddordeb iddyn nhw.

## Pwy sy'n addas i fod yn CDU?

Byddai unrhyw aelod o'r undeb gyda diddordeb mewn dysgu a sgiliau yn addas fel CDU.

## Pa hyfforddiant sydd ar gael?

Mae TUC Cymru yn cynnig hyfforddiant llawn ar gyfer CDUau heb unrhyw gost. Mae CDU cychwynol Cam 1 yn chwe diwrnod o hyd, ac fel arfer, mae'n cael ei redeg am ddiwrnod yr wythnos am chwe wythnos, er y gellir teilwra hyn ar eich cyfer. Mae'r cwrs yn cael ei gyflwyno gan diwtoriaid profiadol mewn lleoliad anffurfiol ac nid oes unrhyw arholiadau na phrofion, dim ond portffolio o waith parhaus a fydd yn datblygu wrth i'r cwrs fynd yn ei flaen. Gellir cyflwyno cyrsiau bron yn rhywle lle mae ystafell ar gael, yn cynnwys eich gweithle chi eich hun os bydd angen.

Mae'r mathau o bethau sy'n cael eu trafod ar y cwrs yn cynnwys:

- Trafodaeth ynglŷn â'r dysgu
- Cael mynediad at gyllid ar gyfer cyrsiau
- Sefydlu cytundeb dysgu
- Arolygon dysgu a chyfweliadau
- Yr achos busnes ar gyfer dysgu

## Pa gefnogaeth sydd ar gael?

Yn yr un ffordd â chynrychiolwyr iechyd a diogelwch a swyddogion undeb, mae cynrychiolwyr dysgu yn rhan hanfodol o unrhyw strwythur undeb, ac felly maen nhw'n derbyn yr un hawliau o dan God Ymarfer ACAS. Mae hyn yn golygu bod gennych chi'r hawl i gael amser i ffwrdd er mwyn cwblhau'r hyfforddiant ac amser rhesymol gyda thâl i gyflawni eich dyletswyddau.

Ar ôl i chi gwblhau'r cwrs, byddwch chi'n ymuno â rhwydwaith o dros 1,000 o CDUau drwy Gymru. Mae TUC Cymru yn cynnig cefnogaeth lawn i gynrychiolwyr gyda chyfleoedd hyfforddi a digwyddiadau ychwanegol, mynediad at gyfarfodydd y rhwydwaith a chymorth un i un os bydd angen, yn ychwanegol at y gefnogaeth y byddwch chi'n ei derbyn gan eich undeb eich hun.

## Beth yw'r fantais i mi?

Yn ogystal â'r cyfle i helpu eich cydweithwyr a gwella sgiliau, cynnydd a morâl o fewn y gweithle, mae dod yn CDU yn gyfle gwych ar gyfer datblygu eich hun. Mae TUC

Cymru yn cynnig llwybr o hyfforddiant llawn yn ychwanegol at beth y mae eich undeb chi'n ei ddarparu. Yn ogystal, byddwch chi'n cael y cyfle i greu cysylltiadau cryf â mudiad yr undebau llafur yn ehangach drwy fod yn bresennol mewn cyfarfodydd a chynadleddau.

Mae llawer o CDUau wedi symud ymlaen o'u swyddogaeth fel gwirfoddolwyr er mwyn cychwyn llwybrau gyrfa newydd ym maes dysgu a sgiliau oedolion.

## Mae gen i ddiddordeb. Beth i'w wneud nesaf?

Os hoffech chi gofrestru ar gyfer cwrs ar gyfer CDU, yn y lle cyntaf, dylech chi siarad â'ch undeb eich hun ac yna cysylltwch â Thîm Gwasanaethau Dysgu TUC Cymru drwy fynd i [wulr@tuc.org.uk](mailto:wulr@tuc.org.uk) neu ffoniwch 02920 347010.



© 2021 TUC Cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Gellir darparu holl gyhoeddiadau'r TUC ar gyfer darllenwyr dyslecsig neu rai â nam ar eu golwg mewn fformat hygyrch, ar gais, heb unrhyw gost ychwanegol.

Bydd y pecyn cymorth hwn yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd, felly byddem yn croesawu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch sut y gellid ei wella. Rhowch wybod i ni os byddwch yn sylwi ar unrhyw beth nad yw'n gyfredol, yn glir neu y gallai fod angen ei gywiro neu ei ddiweddarau.

Cyswllt: Angharad Halpin

ebost: [wulr@tuc.org.uk](mailto:wulr@tuc.org.uk) ff: 029 2034 7010

Cyhoeddwyd gan:  
Wales TUC Cymru,  
1 Heol y Gadeirlan,  
Caerdydd CF11 9SD  
[www.tuc.org.uk/wales](http://www.tuc.org.uk/wales)

Ymwadiad: Mae'r wybodaeth yn y pecyn cymorth hwn yn seiliedig ar ganllawiau cyfredol. Fe'i darperir fel gwybodaeth gefndirol gyffredinol ac ni ddylid ei hystyried yn gyngor cyfreithiol ar gyfer sefyllfa benodol unigolyn. Cyn cymryd unrhyw gamau, dylai unigolion ofyn am gyngor gan undeb ac unrhyw weithwyr proffesiynol priodol yn dibynnu ar eu sefyllfa.